



Ein themau yn y dosbarth Derbyn yn ystod mis *Ionawr* yw **Y GAEAF.**

Mae'r plant a minnau wedi bod yn trafod beth fuasent hwy yn hoffi ei ddysgu:

<p><u>laith, Llythrennedd a Chyfathrebu</u></p> <ul style="list-style-type: none">*Gweithgareddau Tric a Chlic (ysgrifennu a darllen)*Ailosod stori Santes Dwynwen yn ei threfn.*Rhagfynegi diwedd stori (Pengwin ar ei wyliau)*Ysgrifennu rhestr pacio ar gyfer gwyliau mewn gwlad oer.*Ysgrifennu cyfarwyddiadau sut i wneud diod siocled poeth (Stori Siwan yn Mynd i Sglefrio)	<p><u>Dyniaethau</u></p> <ul style="list-style-type: none">*Didoli a chymharu anifeiliaid yr Artig ac anifeiliaid sydd yn byw yng Nghymru.*Cymharu slediau ers talwm gyda slediau heddiw (ac adeiladu sled eu hunain)	<p><u>Mathemateg a Rhifedd</u></p> <ul style="list-style-type: none">*Adnabod ac ysgrifennu rhifau o 0 i 10.*Cyfri i 20.*Cymesuredd (plu eira a chalonnau Santes Dwynwen)*Patrwm x3 – creu mwclis i Poli Pump*Disgrifio tymheredd poeth ac oer* Cynllun Rhifo Rhagorol.
<p><u>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</u></p> <ul style="list-style-type: none">* Côdio Beebot o amgylch Byd Bach yr Artig* Arbrawf Rhewi Maelon (stori Santes Dwynwen) darganfod y ffordd gyflymaf i ddadmer rhew.* Beth i wisgo yn ystod y Gaeaf* Tywydd y Gaeaf*Beth sydd yn digwydd i anifeiliaid yn y Gaeaf? (adar bach yr ardd + stori Robin Goch yn chwilio am Dy)*Defnyddio sgrin werdd i fodelu dillad ar gyfer y siop Gwisgo'n Gynnes.	<p><u>Celfyddydau Mynegiannol</u></p> <ul style="list-style-type: none">*Creu collage mawr ar y cyd o blu eira gyda darnau mân (lliwiâu oer)*Dysgu amrywiaeth o ganeuon am Y Gaeaf* Creu celf i'w hongian gyda rhew a phethau o'r ardd*Gwrando ar Four Seasons – the Winter (Vivaldi) ymateb, a cheisio creu symudiadau a dewis offerynnau addas ar gyfer cadw curiad a pherfformio.	<p><u>Iechyd a Lles</u></p> <ul style="list-style-type: none">*Creu bwyd i'r adar bach yn yr ardd (gofalu am eraill)*Chwarae gêm o amgylch y bwrdd (Achub yr arth wen) i ddysgu cymryd tro.*Rhedeg o amgylch y trac yn ddyddiol*Creu a dilyn rheolau ar gyfer y dosbarth*Adnabod peryglon yn y Gaeaf*Creu gêm ar y cyd gyda pheli eira er mwyn gwella lefelau ffitrwydd.

....a llawer, llawer iawn mwy!

O'r 7fed o Chwefror ymlaen hyd at ganol mis Ebrill byddwn yn dysgu am Y FFERM (+ Dydd Mawrth Crempog, Wythnos Cymru Cwl, Sul y Mamau a'r Pasg)

**Nid yw'r plant a minnau wedi trafod eto yr hyn maent eisiau ei ddysgu am Y Fferm.
Mwy i ddilyn....**

**Gyda diolch,
Mrs Evans ac Anti Anne.**